Ein Stori Lawen

Yr ydym yn Eglwys Blwyf Gymraeg yng nghanol y ddinas ac yr ydym wedi bod yn rhan o fywyd, bwrlwm a thwf Caerdydd ers mwy na chanrif a hanner.

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:
Ficer/Vicar: Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd Rhif Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Curad / Curate: Y Parchedig Athro Lloyd Llewellyn-Jones
Y Wardeniaid/Churchwardens:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Delyth Davies – Ffôn: 077 61 118722
E-bost: delyth.d@yahoo.com
Cyfarwyddwr Cerdd:
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
Trysorydd:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:
Graham Carson - Ffôn: 029 2069 1860
Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:
Marian Fairclough - Ffôn: 07579763030
E-bost: faircloughmarian@gmail.com

Esgobaeth Llandaf + Deoniaeth Caerdydd

EGLWYS DEWI SANT
www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

5 Ionawr 2025
Gŵyl yr Ystwyll

8.00am Y Cymun Bendigaid
Darllenydd: Ifer Arch

10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân ac Ysgol Sul
Darllenwyr: Rhys Davies / Nia Thomas
Emynau: 47 (Epiphany); 44 (Rhosymedre); 44 (Innocents); 51 (Düsseldorf 214)

6.00pm Gwasanaeth Cristingl
Darllenydd: Siwan Seaman
Ceir yr emynau a threfn gwasanaeth ar daflen.

YN EIN GWEDDÏAU
Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Megan Davies, John Hicks, Eleri Hughes, Ann Wyn Jones, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist, a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt

Yn yr Eglwys:

Nos Fawrth 7 Ionawr 2025:
Dim Ymarfer Côr

Dydd Mercher 8 Ionawr 2025
10.30am Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 12 Ionawr 2025
Ystwyll I - Bedydd Crist
10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân
6.00pm Yr Hwyrol Weddi

Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!

YR YSGOL SUL

Mae'r Ysgol Sul yn ailgychwyn heddiw yn ystod y gwasanaeth 10.30am. Cynhelir yr Ysgol Sul ar y Sul cyntaf a'r trydydd Sul yn y mis fel rheol.

GWASANAETH CRISTINGL

Byddwn yn cynnal ein gwasanaeth Crisitngl heno am 6.00pm. Mae'n wasanaeth syml a phrydferth sy'n diweddu yng ngoleuni canhwyllau y Cristinglau. Mae'n addas i bawb o bob oedran. Dewch yn llu os yw'r tywydd yn caniatáu!

CYNGERDD AWR GINIO

Cynhelir cyngerdd awr ginio yn EDS o dan nawdd Actifyddion Caerdydd dydd Mawrth 7 Ionawr am 1.00pm. *Flutes a Frets*, deuawd o Lundain fydd yn perfformio. Mae eu rhaglen yn cynnwys gweithiau gan Jacob Obrecht, John Dowland, a Gioachino Rossini. Tocynnau wrth y drws am £6.50. Croeso i bawb.

DIOLCH

Diolch i aelodau Cylch Dewi am addurno'r Eglwys ar gyfer ein dathliadau dros Ŵyl y Nadolig eleni. Mae'r eglwys yn edrych yn hardd iawn. *Y Ficer*

Y CÔR

Diolch i aelodau'r Côr ac i'n cyfarwyddwr cerdd, Ieuan Jones, am eu holl waith yn ystod yr Adfent a'r Nadolig. Mae'r côr yn cael saib haeddiannol, ac ni fydd ymarfer yr wythnos hon. *Y Ficer.*

PANTO

Cafwyd noson wych yn y panto nos Iau diwethaf. Roedd yn banto penigamp. Diolch i Delyth Davies am drefnu'r cyfan ac i Sylvia am ddarparu'r losin yn ystod yr egwyl! Efallai y daw hyn yn draddodiad newydd i EDS**.**

BANC BWYD CAERDYDD

Diolch i bawb a gyfrannodd nwyddau i waith y Banc Bwyd yng Nghaerdydd. Cyfrannwyd ychydig dros 30Kg o nwyddau a £40.

CYTÛN CAERDYDD Y DDINAS A'R BAE

Cynhelir cyfarfod o bwyllgor Cytûn Caerdydd y Ddinas a'r Bae nos Fercher 8 Ionawr yn Eglwys Gadeiriol Gatholig Dewi Sant, Heol Siarl am 7.30pm.

YMWELIAD YR ARCHDDIACON

PWYSIG: Cynhelir ymweliad yr Archddiacon ag Ardal Gweinidogaeth Calon y Ddinas dydd Sadwrn 18 Ionawr rhwng 9.30am a 4.00pm yn Eglwys Citizen (Eglwys Sant Teilo a Sant Andreas gynt) Woodville Road.

CERDYN NADOLIG

Diolch i bawb a ddefnyddiodd y cerdyn Nadolig mawr yng nghefn yr Eglwys ac a gyfrannodd yn ariannol tuag at gostau cynnal a chadw'r eglwys. Mae angen atgyweirio'r to sydd uwchben y staerau sy'n arwain i'r oruwchystafell. Codwyd cyfanswm o £598.25

GWEDDÏAU'R SUL

Yn ein gweddïau heddiw, gofynnir inni weddïo dros:

- Yr Eglwys yng Nghymru
- Ardal Gweinidogaeth Gogledd Caerdydd, y Parchedig Jim Griffiths (Arweinydd)

Darlleniadau a Gwyliau

Dydd Llun 6 Ionawr: Gŵyl yr Ystwyll

Eseia 60:1-6; Salm 72:10-15; Mathew 2:1-12

Gweddïwn: Esgobaeth Lagos – Eglwys Nigeria

Ardal Gweinidogaeth Taf Wenallt, y Parchedig John Davies (Arweinydd)

Dydd Mawrth 7 Ionawr:

I Ioan 3:19-4:6; Salm 2; Mathew 4:12-17, 23-25

Gweddïwn dros: Esgobaeth Tir Mawr Lagos – Eglwys Nigeria

Ardal Gweinidogaeth y Garth, y Parchedig Sandra Birdsall (Arweinydd)

Dydd Mercher 8 Ionawr:

I Ioan 4:7-12; Salm 72:1-8; Marc 6:30-44

Gweddïwn dros: Esgobaeth Gorllewin Lagos – Eglwys Nigeria

Deoniaeth Eglwysilan, y Deon Bro dros dro, y Parchedig Simon Freeman

Dydd Iau 9 Ionawr:

I Ioan 4:11-19; Salm 72:1,2, 10-13; Salm 72:10-13; Marc 6:45-52

Gweddïwn dros: Esgobaeth Lahore – Eglwys Pacistan

Ardal Gweinidogaeth Caerffili a Chwm Aber, y Parchedig Emma Rees-Kenny (Arweinydd)

Dydd Gwener 10 Ionawr: William Laud

I Ioan 4:19-5:4; Salm 72:14-20; Luc 4:14-22

Gweddïwn dros: Esgobaeth Lainya – Talaith yr Eglwys Esgobol De Swdan

Ardal Gweinidogaeth Pontypridd, y Parchedig Charlotte Rushton (Arweinydd)

Dydd Sadwrn 11 Ionawr: Rhys Prichard, William Williams ac Isaac Williams

I Ioan 5:5-12; Salm 147:12-20; Luc 5:12-16

Gweddïwn dros: Esgobaeth On the Lake – Eglwys Nigeria

Ardal Gweinidogaeth Taff Rhymni, y Parchedig Stuart Tanswell (Arweinydd)